

GWERTHUSO SWYDDI GIG CYMRU - CANLLAW ARFER DA

Geiriau ac Ymadroddion Gwahaniaethol mewn Swydd-Ddisgrifiadau a Manylebau'r Person

Mae llawer o ffyrdd y gall eich manyleb y person ymddangos yn wahaniaethol trwy iaith, ac efallai na fyddwch hyd yn oed yn sylweddoli hynny.

Gellir gweld y rhestrau canlynol o enghreifftiau mewn swydd-ddisgrifiadau a manylebau'r person.

GWAHANIAETHOL	CAMAU I'W CYMRYD
Hyblyg	Newidiwch i 'Ymagwedd hyblyg at waith' neu 'Ymagwedd hyblyg at anghenion y gwasanaeth'
Mae'n hanfodol i fod yn berchen ar gar	Newidiwch i 'Y gallu i deithio rhwng safleoedd mewn modd amserol'
XX mlynedd o brofiad	Dilëwch nifer y blynyddoedd. Gellir ychwanegu profiad "sylweddol" neu "helaeth" os yw'n wirioneddol angenrheidiol
Yn iach yn gorfforol	Mae'n rhaid crybwyll yr union ofynion, e.e., 'Angen estyn a phlygu i godi eitemau o'r llawr ac o silffoedd'
Aeddfed	Newid i 'Agwedd aeddfed'
Egniol	Dilëwch
Yn ifanc	Dilëwch
Ymadawr ysgol	Dilëwch
Fe	Newid i iddynt
Hi	Newid i iddynt
Cofnod lechyd Da	Dilëwch
Presenoldeb da	Dilëwch
Hylendid personol da	Dilëwch
Golwg da	Dilëwch
Synnwyr cyffredin	Dilëwch
Gonest/Dibynadwy	Dilëwch
Synnwyr Digrifwch	Dilëwch
Trwsiadus, Ymddangosiad Taclus, Prydlon, Dibynadwy, Cadw Amser yn Dda, Agwedd Ddymunol a Chwrtais	Bellach yn iawn i'w cynnwys (WEF Ionawr 2015)
Contractau Dim Oriau	Dilëwch

Gall fod meini prawf hefyd ym Manyleb y Person nad ydynt yn addas, er nad ydynt yn wahaniaethol, Mae'n rhaid i'r rheolwr fedru profi a yw ymgeiswyr yn bodloni'r meini prawf hanfodol a dymunol a bod yn wrthrychol/ffeithiol.

Efallai y byddwch am ystyried a yw rhai cymwysterau bellach yn berthnasol neu'n gyfredol er enghraifft yn hytrach na defnyddio Prince 2 efallai y byddai'n well dweud tystiolaeth amlwg o sgiliau rheoli prosiect ac ar gyfer cymwysterau sydd wedi dyddio fel ECDL/RSA, Gwybodaeth Uwch/Ymarferol o becynnau Microsoft gan gynnwys Excel, SharePoint, Teams, Forms, Outlook, a PowerPoint.

Dylai'r meini prawf ddeillio'n uniongyrchol o'r dyletswyddau, dylent fod yn benodol i'r rôl a dylent fod yn fesuradwy er mwyn ystyried a dewis ymgeiswyr yn wrthrychol, a rheoli perfformiad yn y dyfodol. Mae'n hynod bwysig nad yw meini prawf 'hanfodol' a 'dymunol' yn cael eu gorbwysleisio a'u bod yn wirioneddol ofynnol ar gyfer y rôl.

Os nad yw'n ofynnol yn y swydd-ddisgrifiad, peidiwch â'i gynnwys ym manyleb y person e.e., 'Y gallu i ddadansoddi ffeithiau cymhleth' ond nid oes dim am ddadansoddi yn y swydd-ddisgrifiad.

Ni ddylai rheolwyr ddefnyddio fersiwn flaenorol a gwneud mân ddiwygiadau – dylid ei ddiwygio'n llwyr i sicrhau bod yr holl ofynion yn gwbl ofynnol.

Enghreifftiau yn unig yw'r rhain. Bydd y tîm recriwtio yn defnyddio'u barn wrth wirio hysbysebion ac os oes gennych unrhyw ymholiadau, gofynnwch am gyngor.